Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 13eg Hydref, 2009, yn Y Neuadd Goffa,, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 13th October, 2009 at The Memorial Hall , Y Felinheli

Yn Bresennol/Present:

Ken Brown(Is-Gadeirydd)
Iestyn Harris; Aled Job; Pat Jones;
Eluned Owen; Carolyn Pritchard;
Gerald Roberts; Meirion Roscoe ;George Smith;
Pat White; Daniel Williams.

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Yn absenoldeb y Cadeirydd, bu i'r Cyng. Ken Brown gadeirio'r cyfarfod ac fe estynnodd groeso i bawb i'r cyfarfod..

In the absence of the Chairman, Cllr Ken Brown chaired the meeting and welcomed all to the meeting.
.

2) Ymddiheuriadau/Apologies: Sian Gwenllian; Lena Ashley

3) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

4) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd cofnodion o'r Cyfarfodydd cynhaliwyd ar :
11eg Awst 2009
8fed Medi 2009
24ain Medi 2009
fel rhai cywir.

Minutes of the Meetings held on:
11th August, 2009
8th September 2009
24th September 2009
were confirmed as correct.

5 & 6) **Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:**

Traffic a Parcio – Gallai bod cyfle i gael maes parcio tu ol i Neuadd yr Eglwys. Hefyd, mae'r Cynghorwr Sir yn trafod gyda Chyngor Gwynedd i ddileu neu ymestyn i gwaharddiad parcio oddi ar rhan o Stryd Bangor gyferbyn a Cut Above.
Penderfyniad: 1)Cadeirydd i drafod gyda Swyddogion Parcio Cyngor Gwynedd ;
2)Cadeirydd i gynnal trafodaeth efo'r Ficer ynglŷn â defnyddio tir o gwmpas Neuadd yr Eglwys
3)Cyng Daniel Williams i orffen yr arolwg anghenion parcio yn Uwch Menai a thrafod yr arolwg yn y cyfarfod nesaf.
Gor Yrru yn y pentref – adroddwyd bod Siwrne Saff wedi bod yn y pentref amryw o weithiau ac am barhau i gadw golwg ar yr orr yrru. Hefyd mae Cyngor Gwynedd yn monitro traffic Ffordd Llwyn.
Codi arwyddion electronic – cafwyd prisiau o £3,000 yr un am arwydd batri a £3,500 am un solar. PENDERFYNWYD – clerc i holi Cyngor Gwynedd.

Felin Sgwrsio – mae rhaglen o weithgareddau amrywiol wedi ei paratoi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Felin Daclus – gweler adroddiad Cynghorydd Sir

Traffic and Parking – There could possibly be an opportunity to establish a car park at the rear of Church House. Also, the County Councillor is in discussion with Gwynedd Council as to the possibility of extending or removing the waiting restriction on Bangor Street opposite Cut Above.
DECISION: 1) The Chair to discuss with Gwynedd Council Parking Officers;
2) Chair to discuss with the Vicar the possibility of using land around the Church Hall.
3) Cllr Daniel Williams to complete the parking requirements survey around Uwch Menai and the survey to be discussed at the next meeting.

speeding through the village – the Arrive Alive has been in the village on numerous occasions and will be attending regularly.
Electronic Speed Signs – Prices had been obtained - £3000 for battery operated and £3,500 for a solar system. DECIDED – clerk ro consult with Gwynedd Council

FELIN SGWRSIO – a variety of workshops are being arranged for next year.

FELIN DACLUS - see County Councillors' report

7) Is Bwyllgor Neuadd :
Adroddwyd bydd y cynllun cyntaf yn barod erbyn Dydd Iau 15fed a chytunwyd i gynnal cyfarfod ar 20 Hydref am 7.0 o'r gloch.

Dim materion cynnal a chadw.

HALL MANAGEMENT COMMITTEE - reported that a first draft of the plans would be available for Thursday 15th and it was decided that a meeting be held on Tuesday, 20th October at 7.00 p.m.

There were no matters of repair and maintenance to report.

8) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd gwariant Mis Medi.

Payments for the month of September were confirmed.

9) Gohebiaeth/Correspondence:

Nodwyd y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.
Correspondence received during the month were noted

BT Payphones – gwahoddiad i fabwysiadu 2 giosg yn y Felinheli – un ar y traeth a'r llall yn Aberpwll. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cysylltu a BT i holi am amcan bris cynnal a chadw'r ddau giosg a hefyd holi a fydd BT yn adnewyddu'r un yn Aberpwll am ei fod wedi ei fandaleiddio.

BT Payphones – an invitation to adopt 2 kiosks in Y Felinheli, one on Beach Road and the other in Aberpwll. Following discussion, it was decided to contact BT to enquire as to an estimate of the cost or repair and maintenance for the two kiosks, also whether BT would repair the one in Aberpwll that had been vandalised.

Cyngor Gwynedd – Ffliw Bydeang – Trefniant Cefnogol fel bod gweinyddiaeth mynwent yn parhau'n weithredol – Nodwyd ac eglurwyd bod trefniad eisioes wedi ei sefydlu yn dilyn ohebiaeth blaenorol oddiwrth Cyngor Gwynedd.

Gwynedd Councuil – Pandemic Flu – Back-up arrangement so that cemetery administration is availabale – Noted and explained that arrangements had previously been established following previous correspondence from Gwynedd Council.

10) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Dim i'w Adrodd.

Sul y Cofio – trefniadau ychydig yn wahanol tro hyn. Y gwasanaeth i ddechrau oddi allan am 10.50 ac i ddilyn, gwasanaeth yn Neuadd yr Eglwys.

Remembrance Sunday – arrangements slightly different this time . The service to start outside at 10.50.a.m followed by a service in the Church Hall.

11) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

57 Y Wern, Y Felinheli – Cais i godi garej – Dim Gwrthwynebiad
Application for the erection of a garage – No Objection

12) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Clerc i drefnu toriad arall cyn y gaeaf ac i drefnu torri'r gwair yn y rhan uchaf o'r fynwent.

Clerc to arrange a final cut before the winter and to arrange for grass to be cut in the upper part of the cemetery.

13) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Angen chwistrellu'r chwyn

Weeds to be sprayed.

14) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Llwybrau – dim i'w adrodd.

Map Llwybrau – derbyniwyd llythyr oddiwrth Mr Gareth Roberts yn diolch am y croeso gafodd ym mis Gorffennaf ac yn adrodd ei fod wedi cael sawl cais oddiwrth Cynghorau lleol yn datgan diddordeb ond hefyd yn derbyn yr anhawster petai pob Cyngor yn ceisio am grant. Awgrymodd bod y Cynghorau yn dod at eu gilydd i drafod y posibilrwydd o wneud un cais am grant a chysylltu a Dafydd Einion Jones (Swyddog Adfywio Bro).

Footpaths – Nothing to report.

Footpaths Map – letter received from Mr Gareth Roberts expressing his thanks for the welcome he received in July and reporting that he has received a number of

enquiries from other Community Councils but also accepting the difficulties should every Council make an application for grant. He suggested that the Councils get together to discuss the possibility of submitting one application for a joint grant and to contact Dafydd Einion Jones (Rural Development Officer)

15) CYSTADLEUAETH GARDDIO / GARDENING COMPETITION.

Cafwyd noson gwobreuo lwyddiannus iawn yn Ngwesty Plas Dinorwic a bu i'r Aelod Seneddol, Hywel Williams fod yno i gyflwynno'r gwobrau.
Cyflwynwyd diolch y Cyngor i'r Cynghorwr Pat White am drefnu'r noson a'r holl waith o drefnu'r gystadleuaeth.

A successful presentation evening was held at Plas Dinorwic Hotel in the company of Mr Hywel Williams, MP who presented the prizes. Cllr Pat White was thanked for arranging the evening and for her work in organising the competition.

16) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

Adroddiad Cynghorydd

1)MATERION CYNLLUNIO : Nodaf yma fy rhwystredigaeth gyda sustem gynllunio sydd ddim yn rhoi llawer o bwyslais ar farn trigolion lleol.

a)Bron Menai : mae'r arolygydd wedi caniatau y cais am dy arall ar ol i'r mater fynd i apel. Bum yn cynrychioli barn y pentref mewn gwrandawiad yn yr haf ond y datblygwr enillodd.

b)11 Ffordd Caernarfon: rhoddwyd caniatad i ddymcwhel a chodi 4 fflat. Bydd y bae parcio cymunedol ger llaw yn cael ei farcio er mwyn hwyluso'r parcio.

c)Cais am 7 ty 2-stafell wely gyferbyn a'r Half Way : mae hwn yn cael ei drafod gan y swyddogion a'r datblygwr ar hyn o bryd. Yn ol y swyddogion, mae'r dadleuon yn erbyn y datblygiad yn wan ond fe ellid cynnwys cymal fyddai'n golygu mai tai ar gyfer pobol leol fyddai rhain. Gellir gweld y cais ar wefan Cyngor Gwynedd (gwynedd.gov.uk)

2)PARCIO : mae'r Cyngor Cymuned yn cynnal arolwg i ganfod maint y broblem yng nghanol y pentref. Gallai fod cyfle i gael maes parcio tu ol i Neuadd yr Eglwys. Syniad arall yr wyf yn drafod gyda Cyngor Gwynedd yw dileu neu ymestyn y gwaharddiad parcio oddi ar rhan o Stryd Bangor gyferbyn a Cut Above. Cysylltwch os nad ydych yn cytuno!

3)NEUADD GOFFA : mae'r pensaer yn gweithio ar gynllun gwella sylweddol. Bydd cyfle i bawb ei weld a rhoi eu barn yn fuan.

4)NOSON FELIN MEWN BLODAU : Gwobrwywyd mewn sawl categori gyda gardd Craig y Don yn brif enillydd. Diolch i'r Cynghorydd Pat White am drefnu eto eleni.

5)CLWB IEUENCTID : Bum yn cydweithio gyda'r arweinwyr ar brosiect ble mae'r bobol ifanc yn gwneud bocsys adar. Mae'r Clwb yn cyfarfod yn Y Felin Sgwrsio ac yn y Neuadd Goffa.

6)FELIN SGWRSIO : mae rhaglen o weithgareddau amrywiol wedi ei paratoi at y flwyddyn i ddod. Rwyf yn parhau i fod yno ar foreau Gwener. Cafwyd ffair lyfrau ail-law lwyddiannus dros yr haf.

7)SBWRIEL : cafwyd bun newydd yn y maes peldroed ar Lan Mor a bin newydd yn lle un oedd wedi malu ger y siglenni. Mae bun newydd ar Stryd Bangor ac fe gytunodd Chans i osod bun tu allan. Cafwyd ymgyrch casglu sbwriel yn Rowen a Lan Mor gyda phlant ysgol.

8)GANG CYMUNEDOL : rwyf yn trafod eu rhaglen waith yn rheolaidd. Mae'n cynnwys torri gwair, chwynu a man waith o gwmpas y pentref. Mae edrychiad y pentref wedi gwella yn sgil eu gwaith. Gadewch i mi wybod am unrhywbeth sydd angen sylw.

9)PLISMAN CYMUNEDOL : mae Gethin Edwards wedi ei penodi yn lle Mike Davies fel y plisman cymunedol ac mae CBM newydd yn Felin o'r diwedd hefyd.

10)GWAITH SIROL : Rwyf yn parhau i fod yn aelod o'r Panel Sirol ar Ad-drefnu Ysgolion Cynradd ac yn Gadeirydd y Gweithgor Gwella Gwasanaethau Ieunectid ac yn aelod o'r Gweithgor Sgiliau. Rwyf hefyd yn lywodraethwr yn Ysgol Felinheli ac Ysgol Syr Hugh (ble rwyf yn aelod o'r paneli Adeiladau, Cyllid a Chwricwlwm).

11)FERODO : yn sgil y cyhoeddiad na fydd carchar yn dod i'r safle, mae Cyngor Gwynedd yn trafod posibiliadau eraill ar gyfer y safle. Mae gwahoddiad i'r Cyngor Cymuned ymuno a Chyngor Tref Caernarfon mewn cyfarfod gyda'r datblygwyr (Bluefiled) i drafod y dyfodol.

12)TIR YR HEN REILFFORDD : fe fydd rhannau o'r tir o flaen rhai o'r tai yn Ffordd Caernarfon yn cael eu cynnig ar werth ond fe fydd 3 medr o'r trac yn cael ei ddiogelu ar gyfer llwybr/lon las. Rwyf yn trafod y manylion gyda swyddogion y Cyngor.

13)CARAFAN ger y llwybr cyhoeddus sy'n mynd i Dinas : Mae hon ar dir Cyngor Gwynedd ac mae'r Cyngor yn cymeryd camau i'w symud. Byddai angen caniatad cynllunio i leoli carafan barhaol yn yr ardal yma.

County Councillor's Report:

1) PLANNING MATTERS : I note here my frustration with the planning system that does not give much thought to the view of local residents.
    a) Bron Menai – the Inspector has granted the application for an additional house after the matter went to appeal. I represented the view of the village at a hearing during the summer but the developer won.
    b) 11 Caernarfon Road – permission was granted to demolish and erect 4 flats. The community parking bay will be marked in order to facilitate parking.
    c) Application for 7- 2 bedroomed houses opposite Half Way – this is being discussed by the officers and the developer at this moment. According to the Officers, the argument against the development is weak but a clause could be included that would mean that these houses would be for local need. The application can be viewed on Gwynedd Councils web site (Gwynedd.gov.uk)
2) PARKING : Gwynedd Council are undertaking a survey to ascertain the extent of the problem in the centre of the village. There could be an opportunity to establish a car park at the rear of Church Hall. Another idea that I am discussing with Gwynedd Council is to remove or extend the parking restriction on part of Bangor Street opposite Cut Above. Get in touch should you not agree.
3) NEUADD GOFFA : The Architect is working on a substantial improvement plan. There will be an opportunity for everybody to view and express an opinion soon.

4) Y FELIN IN FLOWER EVENING :Several categories were rewarded with the garden at Craig y Don taking the major prize. Thanks to Cllr Pat White for arranging again this year.
5) YOUTH CLUB : I have been collaborating with the Leaders on a project where the young people make bird boxes. The Club meets at both Y Felin Sgwrsio and in the Memorial Hall.
6) FELIN SGWRSIO : Various activities have been prepared for the year to come. I continue to be in attendance on Friday mornings. A successful second hand book fair was held over the summer.
7) LITTER : a new bin has been provided at the football field on Beach Road and a replacement bin for the one by the swings. There is a new bin on Bangor Street and Chans agreed to provide a bin outside their premises. A litter collecting campaign with school children was held in Rowen and Beach area.
8) COMMUNITY WORKFORCE : I am regularly discussing their work programme. It includes grass cutting, weeding and minor works about the village. The appearance of the village has improved in light of their work. Let me know if anything requires attention.
9) COMMUNITY POLICE – Gethin Edwards has replaced Mike Davies as the Community Beat Officer and a new CBM has been appointed for the village at last.
10) COUNTY WORK : I continue to be on the Schools' Reorganisation Panel and Chairman of the Youth Services Improvement workshop and a member of the Skills workshop. I am also a governor in Felinheli School and Syr Hugh Owen School (where I am a member of the Buildings, Finance and Curriculum panels)
11) FERODO : following the announcement that no prison will be erected on this site, Gwynedd Council are discussing possible alternatives for this site. An invitation has been extended for the Community Council to unite with Caernarfon Town Council in holding a meeting with the developers (Bluefield) to discuss the future.
12) THE OLD RAILWAY LINE : parcels of land in front of the houses on Caernarfon Road will be offered for sale, but 3 metres of the track will be safeguarded for the purpose of a path/Lon Las. I am discussing the matter with Officials from Gwynedd Council.
13) CARAVAN : near the public footpath leading to Dinas. This is on land owned by Gwynedd Council and the Council are taking steps to have it removed. Planning permission is required to permanently site the caravan in this location.

17) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Derbyniwyd llythyr oddiwrth perchnogion Gweithdy Cychod ar y maes parcio yn datgan eu anfodlonrwydd yn cael eu pasio o un adran i'r llall yng Nghyngor Gwynedd ynglyn a'i cais i godi arwydd cymwys yn dynodi lleoliad eu gweithdy. Yn dilyn archwyliad o'r ffeil a trafodaeth penderfynwyd cefnogi'r cais am arwydd cymwys mewn cytundeb rhyngddynt a Chyngor Gwynedd. Angen anfon llythyr o gefnogaeth i'r perchnogion.

A letter had been received from the proprietors of the Boat Shed in the car park expressing their discontentment at being passed from one department of Gwynedd Council to the other with regards to their application to erect suitable signage indicting the location of the boat shed. After scrutiny of the file submitted and discussion it was agreed that the Community Council support their application for suitable signage as agreed between them and Gwynedd Council. A letter of support to be sent to the proprietors.

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y Pwyllgor i ben am 8.15 yh

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Y Neuadd Goffa am 7.00 y.h. Nos Fawrth , Tachwedd 10fed.

No other matters to discuss and the Meeting finished at 8.15.p.m.

The next meeting will be held at the Memorial Hall at 7.00 p.m. on Tuesday 10th November, 2009